

O Fethlehem i'r Groes

Yng nghalendr yr Eglwys yr ydym eisoes wedi troi ein golygon tuag at y Pasg. Daw, fe ddaw (i'r rhai sy'n cadw tymhorau) dymor y Garawys. Ac fe fyddwn yma yn y Goleuad yn defnyddio'r wythnosau'r tymor i baratoi'n meddyliau, ein dealltwriaeth a'n calon i ddatlu buddugoliaeth y Pasg.

Yn yr ysgrif hon mae **Tom Williams, Dinbych**, yn ein harwain i fyfyrio am hunan ddealltwriaeth Iesu ohono'i hun.

Meddwl y Crist

I ba raddau tybed gallwn ni ddarganfod meddwl Crist?

Mae hanes y disgyblion agosaf at Iesu, yn ystod ei amser yn eu plith, yn profi eu bod wedi deall pwy ydoedd; mai ef oedd yr un yr oeddent wedi hir ddisgwyl amdano, sef y Meseia (y Crist). Ond mae'r hanes yn dangos nad oeddent wedi deall arwyddocâd llawer o'r hyn oedd ef wedi ei lefaru wrthynt.

Camddeall

Cawn yn Mathew 15.16 Pedr yn gofyn am eglurhad i un o'r damhegion.

Meddai Iesu: A ydych chwithau'n dal mor ddiddeall?

Gwelwn enghreifftiau o Iesu'n cyhuddo rhai o arweinwyr yr Iddewon oedd yn ei wrthwynebu.


Rwy'n credu mai un ffordd o ddeall rhyw gymaint ar feddwl Crist yw trwy fyfyrio ar ei ddefnydd o'r teitl "Mab y Dyn". Cyn dilyn y trywydd hwn gadewch inni edrych ar eiriau allan o lyfr Daniel – geiriau sydd i'w gweld ar y llun ar ganol y ddalen.

Dechrau Deall

Rwyf wedi dyfynnu'r geiriau allan o Lyfr Daniel oherwydd bod Iesu yn dangos ei fod yn ymwybodol bod geiriau'r weledigaeth yn cael eu gwireddu yn ei fywyd. Daw hynny yn amlwg wrth edrych ar hyn mae Iesu yn ei ddweud amdano'i hun.

Ar achlysur iacháu dyn oedd yn dioddef o barlys mae'n dweud wrth y rhai oedd yn ei wrthwynebu fod ganddo ef, Mab y Dyn, awdurdod i faddau pechodau ar y ddaear.

Pan mae disgyblion Iesu yn cael eu cyhuddo o dorri'r Saboth mae Iesu yn ei hamddiffyn gan ddweud ei fod ef, Mab y Dyn, yn Arglwydd ar y Saboth.



Fel yr oeddwn yn edrych ar weledigaethau'r nos, gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau'r nef; daeth at yr Hen ddibenydd a chael ei gyflwyno iddo. Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth, i'r holl bobloedd o bob cenedl ac iaith ei wasanaethu. Yr oedd ei arglwyddiaeth yn dragwyddol a digyfnewid, ac ni ddinistrir ei frenhiniaeth. (Daniel 7:13-14)

Mab y dyn yn dioddef

Wrth baratoi'r disgyblion ar gyfer y weithred arbennig yr oedd ef yn ei wynebu, mae Iesu, unwaith eto, yn mabwysiadu'r teitl, Mab y Dyn. Dyma fel mae Mathew yn croniclo'r trydydd tro iddo gyhoeddi ei farwolaeth wrthynt.

Wrth fynd i fyny i Jerwsalem cymerodd Iesu'r deuddeg disgybl ar wahân, ac ar y ffordd dywedodd wrthynt; 'Dyma ni'n mynd i fyny i Jerwsalem; fe gaiff Mab y

Dyn ei draddodi i'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion; condemniant ef i farwolaeth, a'i drosglwyddo i'r estroniaid i'w watwar a'i fflangellu, a'i groeshoelio; ac ar y trydydd fe'i cyfodir. (Mathew 20.17-19)

Mab y dyn yn ceryddu

Enghraifft arall sydd werth rhoi sylw iddi yw'r achlysur pan mae'r Iesu'n ceryddu lago ac loan am fod yn hunangeisiol yn eu hawydd i ennill y blaen ar y disgyblion eraill.

Dywedodd Iesu wrth y disgyblion; 'Pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi, a phwy bynnag sydd am fod yn flaenaf yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i chwi, fel Mab y Dyn, na ddaeth i gael ei wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer. (Mathew 20.27-28)

Mab y dyn yn ei ogoniant

Rydym wedi gweld bod Iesu wedi gwneud yn glir i'w ddisgyblion beth oedd yn ei wynebu, ond mae hefyd wedi dweud wrthynt y byddai'n cael ei atgyfodi.

Mae'r geiriau nesaf yn tynnu ein sylw at ei ail ddyfodiad.

Pan ddaw Mab y Dyn yn ei ogoniant, a'r holl angylion gydag ef, yna bydd yn eistedd ar orsedd ei ogoniant. Fe gesglir yr holl genhedloedd ger ei fron, a bydd ef yn eu didoli oddi wrth ei gilydd, fel y mae bugail yn didoli'r defaid oddi wrth y geifr. (Mathew 25.31-32)

(parhad ar dudalen 2)



“Gweddiwch yn ddi-baid”

Yn fuan ar ôl dechrau yn fy ngofalaeth gyntaf yng nghylch y Fali, Ynys Môn, roedd gennyf bnawn rhydd a dyma benderfynu mynd draw i Gilgal, Bodedern, un o'r capeli dan fy ngofal i gael golwg ar yr Ysgol Sul, bur lewyrchus. Ymuno â selogion yr Ysgol Sul yn nosbarth yr oedolion dan ofal y Gamaliel hwnnw o Fynydd y Gof, brawd i'r Parch John Evans, Burlan neu Gad neu Bryndu. Daniel oedd dan y chwyddwydyr y pnawn hwnnw.

Dyma Mr Evans yn gofyn yn syth i mi, “Sut ddyn oedd Daniel?” Minnau'n 'marllwys yr holl wybodaeth roeddwn wedi'i gasglu yn y Brifysgol ym Mangor am Daniel, ei lyfr a'i gyfnod. Ond doedd dim yn tycio.

“Dyn doeth, duwiol, dewr,” meddwn.

“Na,” meddai'r hen Saint, “dyn gweddigar oedd Daniel a'i ffenestri'n agored drwy'r dydd tuag at yr Arglwydd!”

“Gorsedd gras yw nef pechadur
Ar ei ddeulin gyda'i Dduw”.

Roedd y Seraff o Fynydd y Gof yn iawn. Dyn gweddigar oedd yntau â'r

O Fethlehem i'r Groes

(parhad)

Mae geiriau cyntaf gweddi'r Iesu yn ngŵydd ei ddisgyblion yn cadarnhau, i raddau helaeth iawn, yr hawl oedd ganddo i fabwysiadu'r enw “Mab y Dyn.”

*O Dad, y mae'r awr wedi dod.
Gogonedda dy Fab, er mwyn i'r Mab
dy ogoneddu di. Oherwydd rhoddaist
iddo ef awdurdod ar bob dyn,
awdurdod i roi bywyd tragwyddol i
bawb yr wyt ti wedi eu rhoi iddo ef.
A hyn yw bywyd tragwyddol; dy
adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn
a anfonais ti, Iesu Grist. (Ioan 17.1-3)*

Mab y dyn yn ein profiad

Mae cwpled cyntaf emyn mawreddog George Rees yn rhoi darlun hynod o bwy yw Mab y Dyn, yn ei berthynas Duw ac yn ei berthynas â'r Cristion.

“O Fab y Dyn, Eneiniog Duw,
fy Mrawd a'm Ceidwad cry’.”

Diolch am ei fawredd a'i ostyngeddwydd.

berthynas yn amlwg yn ei weddïau cyhoeddus. “Gweddi o'r frest” meddai ni. Gwell gennyf fi'r ymadrodd “Gweddi o'r galon.”

Pan gefais fy nerbyn yn gyflawn aelod yng Nghapel Sardis, Bodffordd gan y Parch Lyn Cleaver cefais lyfr ganddo, nid yn anrheg ond yn arf ar gyfer dysgu gweddi'o'n gyhoeddus ymhen rhai blynyddoedd wedyn.

Priodi a symud i fyw i Langristiolus a chael fy nghodi'n flaenor yn Horeb, capel hynaf y Methodistiaid Calfaidd ym Môn. Ar nos Sul, pan gynhelid cyfarfod gweddi, y problem a wynebai llywydd y mis oedd, nid pwy y gallai ofyn iddo gymryd rhan, ond pwy i beidio â gofyn iddynt. Roedd y sedd fawr a'r llawr yn lluosog o weddiwyr o'r frest.

Cofio un nos Sul i mi ag Owen Jones, Felin Fach, benderfynu cymryd rhan. Roeddwn wedi dewis tri arall yn barod. Dyma benlinio'n dau wrth ochor William Jones, Bryn Engan, gweithiwr a gwas ffarm, a gofyn iddo weddi'o'n gyntaf a ni'n dau i ddilyn.

Dyma un o'r gweddiâu mwyaf a glywais erioed. Roedd wedi tynnu'r nef i lawr y noson honno. Gweddi yn llawn diolch ac ymbil ac yn ei chloi hefo pennill o emyn.

“Rhyfedd na fuaswn awr
Yn y fflamau,
Wedi cael fy nhorri'i lawr
Am fy meiau,
Gan fy mod i heddiw'n fyw,
Mi rof deyrnged.
O glod a mawr i'm Harglwydd Dduw,
Am fy arbed.”

Doedd yna ddim byd i'w wneud, ond ledio emyn a chyhoeddi'r Fendith.

Oes, mae yna weddiâu gwllithog ar bwys profiadau mawr ar dudalennau llyfrau gwasanaethau a chymorth i addoli.

Llund berfa ohonynt yn ambell i Sedd Fawr. Defnydd gwerth chweil. Ond nid dyna sydd gennyf dan sylw, ond gofyn beth sydd wedi digwydd i'r arfer o weddi'o'r frest? Beth sy'n cyfrif am hyn? A'i dyma sydd wrth wraidd y dirywiad? Llai o ddefnyddio'r “ffri ffôn” i'r gogoniant? Gofyn ydw i a gofidio yr un pryd.

Parch Hugh Pritchard

(**Gol.** Ydych chi'n cytuno gyda'r her o'r bocs sebon? Gadewch i ni glywed eich lais. Tybed a ydych chi'n cofio oedfa “wlithog” neilltuol? Ac a hoffech rannu'r profiad gyda ni? Byddem oll ar ein helw o'i glywed.)

Taro'r Post



Annwyl Olygydd,

Wedi darllen ymateb y Parch. Ifor ap Gwilym i sylwadau John Gruffydd Jones ar “Y Bocs Sebon”, sylwais fy hun yn gofyn beth oedd pwrpas yr ymateb?

Rwy'n teimlo efallai fod y parchedig ymateb hwn, yn ogystal ag erthygl D. Ben Rees am emynau Ann Griffiths, wedi cyffwrdd ar rwystredigaeth sydd wedi bod yn tyfu yno dros y misoedd diwethaf.

Mae'n ymddangos ein bod ni fel Cymry yn poeni llawer mwy fod ein hemynau ag emynwyr yn cael eu trin a'u parchu yn iawn, nag ydym am roi'r un sylw i'r Duw sydd wedi eu hysbrydoli – fel person sydd, wrth weld llun o fachlud prydfferth, gyda mwy o ofal am rinweddweddau'r camera wnaeth dynnu'r llun nag am y machlud ei hun.

Tybed a ydym yn euog o wneud fel Iddewon Jeremeia 7 gan addoli yr hyn a grewyd yn hytrach na'r Un sy'n haeddu pob mawl? Fel oedd eu sicrwydd nhw ym modolaeth eu teml a'u harferion, tybed ydy ein sicrwydd ninnau yn ein hadeiladau a'n hemynau yn hytrach nag yn Yr Arglwydd Hollalluog?

Cwyn gyson sy'n cael ei leisio y dyddiau yma yw nad yw “pobl ifanc dyddiau yma” yn adnabod emynau fel yr oedden ar ryw adeg. Gofynnaf innau – oes ots? Onid ydy'n fater llawer iawn mwy difrifol nad ydy ein plant, iuenctid, oedolion na henoedd yn rhugl yn ysgrythyrol? Ac hyd yn oed yn fwy pwysig byth, nad ydy canran enfawr o'n aelodau yn cynnal eu perthynas gyda'u hachubwr?

I fathu teitl albym o'r 1970'au: 'Never Mind the Hymns: Here's The Author of our Salvation'.

Yng Nghrist
Gwion Dafydd

CALENDR Y GOLEUAD

Cymdeithasfa'r Gwanwyn 2020. Capel y Porth, Porthmadog, 28/29 o Ebrill 2020.

Cymdeithasfa'r De. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Trinity, Abertawe, ar 6-7 Mai 2020.

Henaduriaeth Trefaldwyn. Maengwyn, Machynlleth, Dydd Sadwrn, Chwefror 8fed, am 1.30.

Henaduriaeth Arfon. Eglwys y Berth, Penmaenmawr, dydd Mawrth, Chwefror 18fed am 1.30 y prynhawn. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod nos Wener, Chwefror 7fed, am 6.30 yr hwyr yn Seilo, Caernarfon.

Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain. Capel Bethesda'r Wyddgrug, am 7.15 ar nos Fercher, Chwefror 19eg. Arwisgo'r Llywydd Newydd.

E-bost a'r Goleuad

Gall pwy bynnag sydd am anfon erthyglau a lluniau i'r Goleuad wneud hynny ar:

goleuad@ebpcw.org.uk